Fforwm Defnyddwyr Ogwen

3ydd Ebrill 2014

Presennol:

Edward Jones	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE)
Andy Harbach	Tîm Achub Mynydd Dyffryn Ogwen
Malcolm Creasy	Arweinwyr Mynydd Prydeinig
Mair Huws	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Dewi Davies	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Guto Roberts	Ymddiriedolaeth Genedlaethol
Jenny Crouch	Cyfoeth Naturiol Cymru
Dewi Roberts	Ymddiriedolaeth Genedlaethol
Emyr Williams	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Paula Roberts	Prifysgol Bangor
Hywel Roberts	Cyfoeth Naturiol Cymru
Arwel Johnston	Tenant
Edwina Johnston	Tenant
Aneurin Philips	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Jamie Holding	Ogwen Cottage
Chris Radford	Ogwen Cottage

1. Ymddiheuriadau:
Bedwyr ap Gwynn; Martin Doyle; Carys Dafydd yn methu bod yn bresennol oherwydd profedigaeth - Y fforwm yn dymuno cydymdeimlo â hi.

2. Cofnodion y Cyfarfod diwethaf:
Pawb yn hapus o ran cywirdeb

Materion yn Codi:

- Pwynt 3 – Tudalen 3 wedi ffurfioli'r trefniant agor / cau
  Bellach mae glanhawraig yn cau am 7.00
  Swyddog Partneriaeth yn agor yn yr wythnos, APCE ar benwythnosau

- Pwynt 7 - Mater o drwsio'r giât feics ar y gweill gyda Dewi Roberts

- Tudalen 6 – Penderfyniad Corfforaethol os oedd mynediad agored i'r we yn bosib / briodol ar y safle

- Parcio ar y pafin A5
- Arwyddion plant ysgol
- Ystyriaeth i folardiau gan T.R.A
- Ymgynghori ar linellau melyn

DRAFT

3. Adroddiad Guto Roberts – Swyddog Partneriaeth

Rhoddodd Guto ddiweddariad o ddigwyddiadau yn Ogwen gan gynnwys

- Ymweliadau gan grwpiau ysgol ac addysgiadol
- Blog
- Wythnos Wyddoniaeth Gymunedol ddaearegol yn edrych am y 100 lle daearegol pwysicaf
- Gwaith cyfalaf – cyllid 2014/15 heb ei gadarnhau eto
  Bellach yn rhannu swyddfa gyda Bedwyr ap Gwynn o Fenter Iaith Conwy

Ar ran Bedwyr ap Gwynn, rhoddodd adroddiad byr ar gynllun COPA Menter Iaith Conwy.

- Ers cychwyn y cynllun mae 125 o unigolion dros y Gogledd wedi derbyn hyfforddiant – 75% tuag at hyfforddiant cyfrwng Cymraeg.
- Gweithgareddau ysgol
- Eira fyrddio gaeaf!
- Mynyddoedd Pawb – cynhadledd yn cael ei chynnal mis Hydref 2014
- Dylanwadu ar ganolfannau awyr agored i ddefnyddio enwau lleoedd Cymraeg.

4. Adroddiad Edward Jones – Pennaeth Eiddo APCE

- Talu ac arddangos – bu problem gyda meddalwedd y banc ar y dechrau. Mae'r peiriant bellach yn gweithio hefo cardiau.
  Y chwarter diwethaf - 15% wedi talu gyda cherdyn
  Monitro yn mynd i ddigwydd o'r swyddfa

- Yr adeilad - bron a chwblhau tystiolaeth / gwybodaeth ar gyfer derbyn lefel rhagorol, dan y dull asesu amgylcheddol BREEAM .

- Tendr i logi swyddfa - Menter Iaith Conwy oedd yn llwyddiannus. Teimlwyd bod y fenter yn addas i'r lleoliad.

- Cyflenwad dwr – pympiau wedi methu – pympiau newydd i gyrraedd ddydd Mawrth 4ydd Ebrill.
  Gofynnodd a oedd unrhyw un yn gwybod am gwmni fyddai'n gallu cyflenwi bawser dŵr o fewn 24 awr. (tank dwr cludadwy)
  Edrych am ail gyflenwad wrth gefn – os oedd rhywbeth yn digwydd i'r pympiau eto.

- Monitro Rhew – mae mesuryddion tymheredd wedi ei osod yng nghefn y cwm – tua 5cm a 15cm o dan wyneb y tir. Mae'r wybodaeth ar wefan y Cyngor Mynydda Prydeinig ond ddim yn ddwyieithog
  Mae wedi profi'n llwyddiannus ond heb gael llawer o brawf oherwydd y diffyg rhew.

DRAFT

- Ynghylch cynllun BREEAM – ychwanegodd Jenny Crouch y bydd y lefelau golau yn cael eu monitor cyn i'r prif-asesydd ddod yn ôl i asesu'n derfynol. Mi ddylai hynny ddigwydd yn y pythefnos / mis nesaf.

5. Cynllun Cymuned a Natur – Jenny Crouch

Dywedodd Jenny Crouch ei bod wedi bod yn gweithio gyda gwirfoddolwyr yn Ogwen a bod 270 o holiaduron wedi eu cwblhau - ond maent angen cael eu rhoi ar y system ddadansoddi - felly does dim adroddiad eto.
Rhannodd Jenny enghraifft Ystradllyn. Mae'r adborth sydd wedi dod i law hyd yn hyn yn cynnwys - mwyafrif yn hapus; isio mwy o lefydd eistedd mewn ac allan; bin sbwriel; mwy o fwyd lleol, Angen mwy o le parcio, gwybodaeth leol, drychau, café; gwybodaeth am ba mor anodd ydi'r daith i Gwm Idwal. Ysgol fusnes Caerdydd fydd yn dadansoddi'r wybodaeth.

Mynegwyd y farn y byddai'n syniad holi mwy dros yr Haf er mwyn cael gwell croes doriad o ymwelwyr - dim ond ar ddydd Gwener y bu'r holi hyd yma.

Dywedodd Paula Roberts y gellid cydweithio hefo'r Brifysgol er mwyn ymgynghori ymhellach
Roedd cytundeb ei bod yn bwysig i'r adroddiad gael ei drafod - rhoi cyfle i ni weld be ydi anghenion cwsmer ac a ydynt yn cael eu cyflawni.

6. Bwthyn Ogwen – Jamie Holding

Dywedodd Jamie Holding ei bod wedi bod yn fraint cael mynd a chymaint o bobl ifanc i fyny i Gwm Idwal dros yn 25 mlynedd ddiwethaf.
Mae Cyngor Birmingham yn gorfod gwneud toriadau sylweddol - ac mae gwasanaethau dysgu awyr agored arferai gael eu sybsideiddio yn awr yn gorfod cael eu rhedeg ar gost niwtral. Nid yw'r gwasanaeth yn un statudol
Cafodd adroddiadau eu cyflwyno i gabinet Cyngor Birmingham ar Chwefror 17eg a chytunwyd y dylid cael gwared â 4 canolfan ddydd a phob safle dros nos. Roeddynt wedi derbyn sawl ymbil taer mewn ymateb i'r adolygiad - ar ddiwedd y dydd arian sy'n siarad. Byddant yn rhoi'r gorau i'r busnes ar 31ain o Orffennaf. Byddai diswyddiadau'n digwydd ddechrau Awst - unai'n wirfoddol neu'n orfodol - ar hyn o bryd mae nifer fechan o staff craidd gan ddefnyddio staff llawryf ychwanegol fel bo angen.
Dywedodd bod y ganolfan wedi cael ei phrisio â gwerth £450k – ac maent wedi derbyn 4 datganiad o ddiddordeb.

Nid yw'r Cyngor wedi rhoi cyngor ar sut y dylid symud ymlaen gyda rhai sydd wedi mynegi diddordeb.

Dywedodd ei fod, o bersbectif personol yn gobeithio y gallai'r bwthyn Ogwen barhau i gynnig cyfleoedd i bobl ifanc - ond y byddai'n anodd iawn cael achos busnes digon cryf.

Dywedodd Aneurin Phillips bod cau'r ganolfan yn golled fawr - eu bod wedi bod yn bartneriaid pwysig a bod cau yn golygu bod 50 mlynedd o hanes yn cael ei golli.

DRAFT

Ychwanegodd Malcolm Creasey bod dwy ganolfan awyr agored arall wedi cael eu cymryd drosodd yn ystod y flwyddyn - un wedi cael ei phrynu gan y rheolwr. Dywedodd fod integreiddio gyda'r gymuned ehangach yn holl bwysig i ddyfodol unrhyw fenter. Gorffennodd drwy ddweud fod Cyngor Dinas Birmingham yn ymwybodol o etifeddiaeth bwthyn Ogwen

7. Unrhyw Fater Arall

Pwysleisiodd Jermone y pwysigrwydd o gael cyflenwad dŵr wrth gefn.
Child Slow - Bydd lolo Tegid yn trefnu ymgynghori pellach os byddent yn bwriadu mynd ymlaen gyda'r gwaith

Dyddiad y Cyfarfod nesaf: awgrymwyd bod y cyfarfodydd yn cael eu cynnal ar ôl hanner tymor Hydref ac yna cyn tymor y Pasg yn hytrach na pob 6 mis.

DRAFT